

Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol

Cwestiynau cyffredin

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

C1. Os ydw i'n gofalu am blentyn neu blant yn un o'u cartrefi, a oes angen i mi gael fy nghymeradwyo?

Nac oes. Cynllun gwirfoddol yw hwn, ond bydd yn eich galluogi i brofi i'ch cyflogwr eich bod wedi bodloni'r meini prawf a bydd yn ei alluogi i gael gafael ar gymorth ariannol os yw'n gymwys, a ddylai olygu eich bod yn fwy cyflogadwy.

C2. Beth yw'r meini prawf ar gyfer y cynllun cymeradwyo gwirfoddol?

Mae'r meini prawf ar gyfer cymeradwyo gofalwr plant yn y cartref (nani) o dan y cynllun hwn fel a ganlyn:-

- rhaid bod yr ymgeisydd dros 18 oed;
- rhaid bod yr ymgeisydd yn meddu ar dystysgrif cymorth cyntaf pediatrig;
- rhaid bod yr ymgeisydd wedi ymgymryd â gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS);
- rhaid bod yr ymgeisydd yn meddu ar gymhwyster ar [Restr o'r Cymwysterau Gofynnol](#) Gofal Cymdeithasol Cymru i weithio yn y Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant:

Gallwch ddod o hyd i'r cymhwyster gofynnol ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru yn y [Rhestr o'r Cymwysterau Gofynnol i weithio yn y maes blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru](#)

C3. Beth os nad oes gennyf un o'r cymwysterau a restrir uchod?

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am gyfleoedd hyfforddiant, ac unrhyw gymorth ariannol lleol a all fod ar gael, i astudio ar gyfer cymwysterau yn:

- [Gofal Cymdeithasol Cymru](#)
- Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Awdurdodau Lleol
- [PACEY Cymru](#)
- [AGC](#)

C4. Faint y bydd yn ei gostio i gael fy nghymeradwyo?

Cost cymeradwyo'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yw £55. Os bydd angen tystysgrif DBS ar ymgeiswyr hefyd, gellir [gwneud cais drwy Vibrant Nation](#) am £49.60

Mae'r gymeradwyaeth yn para am 12 mis felly bydd angen i chi wneud cais bob blwyddyn. Mae gwiriad DBS yn ddilys am dair blynedd. Y ffi ar gyfer cyflwyno cais yn yr ail a'r drydedd flwyddyn yw £55. Dylech gyflwyno eich cais rhwng chwech ac wyth wythnos cyn i'ch cymeradwyaeth ddod i ben.

C5. Beth yw gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)?

Fel rhan o'r broses gymeradwyo, mae'n ofynnol i ymgeiswyr wneud cais am wiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (gwiriad DBS). Mae gwiriad DBS yn ddogfen sy'n cynnwys gwybodaeth a ddelir gan yr heddlu ac adrannau'r Llywodraeth a gall cyflogwyr a sefydliadau gwirfoddol ei defnyddio i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel. Caiff datgeliadau eu darparu gan y DBS, sy'n un o asiantaethau gweithredol y Swyddfa Gartref.

Mae gwiriad DBS yn hanfodol i'r rheini sy'n gofalu'n rheolaidd am blant neu oedolion sy'n agored i niwed, yn eu hyfforddi, eu goruchwyllo neu'n gyfrifol amdanynt ar eu pen eu hunain, ac mae'n cynnwys manylion yr holl euogfarnau a gofnodwyd gan gynnwys euogfarnau wedi'u disbyddu, yn ogystal â manylion unrhyw rybuddion neu geryddon. Mae hefyd yn cynnwys lefel ychwanegol o wiriadau yn erbyn cofnodion heddluoedd lleol yn ogystal â gwiriadau â Chyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu a rhestrau adrannau'r llywodraeth o'r rheini sydd wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag gweithio gyda phlant.

C6. A ydych wedi ystyried tanysgrifio i Wasanaeth Diweddarau'r DBS?

Drwy gofrestru ar gyfer tanysgrifiad blynyddol, gallwch ymuno â [Gwasanaeth Diweddarau'r DBS](#); bydd hyn eich galluogi i gadw eich Tystysgrif DBS yn gyfredol a mynd â hi gyda chi o swydd i swydd, ar yr amod eich bod yn aros yn yr un math o [weithlu](#) ac mai'r un math o wiriad a lefel o wiriad sydd ei angen (Safonol neu Manwl).

C7. Beth os wyf eisoes wedi cofrestru gyda Gwasanaeth Diweddarau'r DBS?

Os oes gennych dystysgrif DBS uwch ar gyfer y math o weithlu rydych yn gwneud cais i weithio ynddo, a'ch bod eisoes wedi tanysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddarau, y ffi gymeradwyo ar gyfer cais y flwyddyn gyntaf fydd £55 am na fydd angen i chi dalu am gost gwiriad gan y DBS. Mae'n rhaid i chi ddangos eich dystysgrif DBS wreiddiol i ni a chydsynio i ni gynnal 'gwiriad statws' ar-lein i weld a oes unrhyw newidiadau ar eich dystysgrif.

Pwysig: Os na fyddwch yn talu'r ffi danysgrifio flynyddol ar gyfer Gwasanaeth Diweddarau'r DBS, bydd angen i chi wneud cais am wiriad DBS newydd.

C8. Sut ydw i'n gwneud cais am gymeradwyaeth gyda'r Cynllun Cymeradwyo Gofal Plant?

A. Cwblhewch ffurflen gais a'i hanfon at naill ai:

Cynllun Cymeradwyo Gofal Plant
Arolygiaeth Gofal Cymru
Swyddfeydd y Llywodraeth
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy LL31 9RZ
(Ffôn. 0300 790 0126)

Cynllun Cymeradwyo Gofal Plant
Arolygiaeth Gofal Cymru
Adeilad y Llywodraeth
Picton Terrace
Caerfyrddin
SA31 3BT

E-bost: CIWRegistration@gov.wales

Gallwch ddod o hyd i ffurflenni cais ar [ein gwefan](#) drwy'r ddolen hon:

Os byddwch yn cyflwyno eich cais dros e-bost, sicrhewch eich bod yn atodi delweddau wedi'u sganio o'ch cymwysterau, yna byddwn yn cysylltu â chi i gymryd eich taliad dros y ffôn, ac os bydd angen gwiriad DBS arnoch, gallwn ddechrau'r broses gyda'n darparwr ar-lein.

Os byddwch yn cyflwyno eich cais drwy'r post, cofiwch gynnwys dystysgrifau eich cymwysterau er mwyn i ni asesu eich cymhwysedd.

C9. Rwy'n gweithio fel gofalwr plant yn Lloegr/yr Alban, a allaf wneud cais i gael fy nghymeradwyo?

Dim ond i Gymru y mae'r Cynllun Cymeradwyo Gofal Plant yn y Cartref yn berthnasol, ond os ydych yn byw yn Lloegr neu'r Alban ac yn gofalu am blant yng Nghymru, gallwch wneud cais i ddod yn ofalwr plant cymeradwy.

C10. Beth gall unigolyn ei wneud os caiff cymeradwyaeth ei gwrthod?

Yn y lle cyntaf, gall gofalwyr plant ofyn i'r Corff Cymeradwyo ailystyried ei benderfyniad. Os nad yw'r gofalwr plant yn fodlon â'r penderfyniad o hyd ar ôl y broses apelio fewnol, gall apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Os hoffech apelio, mae'n rhaid i chi gyflwyno cais ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn Mowden Hall, Staindrop Road, Darlington DL39BG.

C11. Sut y gallaf nodi a yw gofalwr plant wedi'i gymeradwyo?

Bydd pob gofalwr plant a gymeradwywyd yn cael llythyr Cymeradwyo yn nodi ei enw, cyfnod dilysrwydd a rhif adnabod unigryw. Pan fyddwch yn cyflogi gofalwr, dylech ofyn iddo gyflwyno'r llythyr hwn i chi fel tystiolaeth ei fod wedi'i gymeradwyo.

C12. Sut y gallaf ddod o hyd i ofalwyr cymeradwy yn fy ardal?

Gallwch gysylltu â'ch [Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd](#) lleol er mwyn dod o hyd i ofalwyr cymeradwy yn eich ardal. Gallwch ffonio ei linell genedlaethol ar **0300 123 7777** i gael rhagor o wybodaeth.

C13. Pa drefniadau diogelu fydd ar waith ar gyfer gofalwr plant cymeradwy sy'n gweithio yng nghartref y rhiant os yw'r cartref hwnnw yn beryglus i'r plant neu'r gofalwr plant?

Y gofalwr plant a'r rhieni fydd yn gyfrifol am nodi unrhyw risgiau.

C14. Beth fydd y corff cymeradwyo yn ei wneud os caiff wybod bod gofalwr plant cymeradwy wedi anafu plentyn?

Bydd yn cynghori'r sawl sy'n ffonio i roi gwybod i'r Awdurdod priodol. Bydd hefyd yn nodi manylion y gofalwr plant a'i gyfeiriad ac yn trosglwyddo'r wybodaeth honno i'r Gwasanaethau Cymdeithasol Lleol. Pan fydd AGC yn cael gwybod bod awdurdod priodol yn ymchwilio i'r honiadau, gall dynnu cymeradwyaeth yn ôl ar unrhyw adeg yn ystod yr ymchwiliad. Os bydd yr ymchwiliad yn penderfynu na chyflawnodd y gofalwr plant unrhyw gamwedd, gall gyflwyno cais i gael ei gymeradwyo eto.

C15. A fydd gofal plant yn gymwys ar gyfer cymorth mewn perthynas ag elfen gofal plant Credydau Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol?

A. Mae gofal plant sy'n cael ei ddarparu gan ofalwr a gymeradwywyd o dan delerau'r cynllun hwn, sy'n darparu gofal yng nghartref un o'r plant y mae'n gofalu amdanynt, yn ofal sy'n gymwys at ddibenion cyfrifo cymhwysedd ar gyfer elfen gofal plant Credyd Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol ac ar gyfer y buddiannau treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol sy'n gysylltiedig â defnyddio talebau gofal plant cyflogwyr.

C16. Beth am bobl sy'n gofalu am blant y maent yn perthyn iddynt? A fydd rhieni'r plant yn gallu hawlio elfen gofal plant Credyd Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol?

A. Fel arfer, ni allwch hawlio cymorth gyda gofal plant a ddarperir gan berthnasau, hyd yn oed os ydynt wedi'u cymeradwyo.

C17. Pryd y gallwch hawlio am ofal plant a ddarperir gan berthnasau?

A. Gallwch hawlio am elfen gofal plant Credyd Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol ar gyfer gofal plant a ddarperir gan berthynas os yw'r perthynas hwnnw yn bodloni'r canlynol:

- darparwr gofal plant a gymeradwywyd o dan Gynllun Cymeradwyo Gofal Plant sy'n gofalu am eich plentyn y tu allan i gartref eich plentyn, ond mae hefyd angen i'r perthynas hwnnw fod yn gofalu am o leiaf un plentyn arall nad yw'n perthyn iddo.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i [wefan CThEM](#).

C18. A oes angen i mi gael fy nghymeradwyo os wyf yn cael fy nhalu mewn talebau gofal plant?

A. Na, ond dim ond os byddwch wedi eich cymeradwyo y bydd buddiannau treth ac Yswiriant Gwladol ar gael i'ch cyflogwr. I gael gwybodaeth am dreth ac Yswiriant Gwladol ewch i [wefan CThEM](#).

C19. Beth yw hyd y broses adnewyddu?

A. Rydym yn cynghori gofalwyr i gyflwyno ceisiadau am gymeradwyaeth rhwng 4 a 6 wythnos ymlaen llaw.

Er mwyn sicrhau bod rhieni yn cynnal hawl barhaus i gredydau treth/Credyd Cynhwysol/talebau gofal plant cyflogwyr, mae angen i'w nani neu ofalwr barhau wedi'i gymeradwyo neu wedi'i gofrestru.

Bydd y rheini sy'n dilyn y cyngor hwn yn fwy tebygol o brofi proses adnewyddu ddidrafferth, gyda'r gymeradwyaeth newydd yn dechrau o'r dyddiad y daw'r hen gymeradwyaeth i ben.

Mae angen i ofalwyr gael gwiriad DBS newydd bob 3 blynedd, ond bydd angen i chi wneud cais am gymeradwyaeth bob blwyddyn o hyd, a bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth bod eich hyfforddiant cymorth cyntaf yn gyfredol.